------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 11 Chwefror 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(247)v3

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y ward obstetreg a gynaecoleg yn Ysbyty Glan Clwyd, yn dilyn y cyhoeddiad ddoe bod gofal o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn yr ysbyty wedi'i atal am 18 mis?

**3 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**
**NNDM5683 Simon Thomas (Gorllewin a Chanolbarth Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) diwrnod cofrestru pleidleiswyr Bite the Ballot ar 5 Chwefror ac wythnos genedlaethol o weithgareddau rhwng 2 a 8 Chwefror;

b) adroddiad y Comisiwn Etholiadol, 'The quality of the 2014 electoral registers in Great Britain', a ganfu nad oedd 49% o bobl ifanc 16-17 oed wedi cofrestru i bleidleisio.

c) adroddiad cynnydd y Comisiwn Etholiadol, 'Dadansoddiad o'r Arbrawf Cadarnhau Byw yng Nghymru a Lloegr', a ganfu bod y gyfradd baru i bobl rhwng 16 a 17 oed sydd wedi cofrestru i bleidleisio'n unigol wedi gostwng o 86% i 52%; a

d) llwyddiant menter ysgolion Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon a wnaeth arwain at ychwanegu 57,000 o bobl ifanc (tua 50% o'r grŵp oedran) at y gofrestr.

2. Yn gresynu at y ffaith bod nifer y bobl sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad wedi bod yn gostwng ac yn cefnogi camau i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn democratiaeth;

3. Yn galw am gamau i rymuso swyddogion cofrestru i wella prosesau rhannu data, cynyddu nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol - yn enwedig etholwyr ifanc a myfyrwyr - a sicrhau lefelau uwch o gyfranogiad ymhlith pobl ifanc.

Mae adroddiad 'The quality of the 2014 electoral registers in Great Britain' gan y Comisiwn Etholiadol ar gael yma:
http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0005/169889/Completeness-and-accuracy-of-the-2014-electoral-registers-in-Great-Britain.pdf
(Saesneg yn unig)

**Cefnogwyd gan**:

Ann Jones (Dyffryn Clwyd)
Leanne Wood (Canol De Cymru)
Peter Black (Gorllewin De Cymru)

Aled Roberts (Gogledd Cymru)
Keith Davies (Llanelli)
Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)
Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i gytuno y dylai'r broses o drosglwyddo enwau pobl gofrestredig a oedd wedi'u cynnwys yn y gofrestr flaenorol, nad oedd wedi cofrestru'n unigol, fod yn gymwys i gofrestr 2016 yn yr un modd ag yr oedd ar gyfer 2015.

**4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5687 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod dros 138,000 o bobl yng Nghymru wedi elwa o'r cynlluniau Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael.

2. Yn gresynu at:

a) bwriad Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar y cynlluniau Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael yng Nghymru;

b) y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyflawni cyflenwad priodol o dai fforddiadwy newydd yng Nghymru; ac

c) y ffaith bod nifer yr unedau tai cymdeithasol wedi gostwng ers i Lywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am dai.

3. Yn galw am raglen ddiwygio tai gynhwysfawr i gynyddu'r cyflenwad tai a lleddfu problemau o ran fforddiadwyedd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod gan gynghorau lleol eisoes yr opsiwn o wneud cais i Lywodraeth Cymru atal yr hawl i brynu.

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 2a) ac ail-rifo yn unol â hynny.

**Gwelliant 3 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried atal yr hawl i brynu ar gyfer tai cymdeithasol a adeiledir o'r newydd gan gadw hawliau ar gyfer tenantiaid presennol.

**Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod targedau ar gyfer nifer y cartrefi fforddiadwy y dylid eu hadeiladu yng Nghymru yn ystod tymor Cynulliad o fewn chwe mis i etholiad Cynulliad a dylid adrodd arnynt i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn.

**5 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5695 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Llywodraeth Cymru i baratoi cynllun gweithlu cenedlaethol 10 mlynedd newydd ar gyfer y GIG, sy'n cynnwys camau i hyfforddi a recriwtio 1,000 o feddygon ychwanegol, er mwyn sicrhau bod y GIG yn gallu darparu gwasanaethau iechyd ym mhob rhan o Gymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu popeth ar ôl 'cynllun gweithlu cenedlaethol 10 mlynedd newydd ar gyfer y GIG,' a rhoi yn ei le 'sy'n sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i hyfforddi a recriwtio digon o feddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru yn barod ar gyfer y dyfodol.'

*[os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu '1,000 o feddygon' a rhoi yn ei le 'meddygon'.

**Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod y naill Llywodraeth Cymru ar ôl y llall wedi methu â chynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion gweithlu'r GIG yng Nghymru.

**6 Cyfnod pleidleisio**

**7 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5688 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Ail-agor Twnnel y Rhondda

Mae cynigion i ail-agor y twnnel rheilffordd segur rhwng Blaengwynfi a Blaencwm yn rhoi cyfle mawr ar gyfer adfywio a arweinir gan bobl yn y Cymoedd ac mae hwn yn fan cychwyn ar gyfer gwelliannau ehangach wedi'u harwain gan y cymunedau hynny.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 24 Chwefror 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 4 Chwefror 2015 i'w hateb ar 11 Chwefror 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Leanne Wood (Canol De Cymru):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod disgyblion yn gadael ysgolion gyda sgiliau TG rhagorol? OAQ(4)0531(ESK)

**2. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu system gategoreiddionewydd ar gyfer ysgolion? OAQ(4)0532(ESK)

**3. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i foderneiddio ysgolion? OAQ(4)0534(ESK)**W**

**4. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o wahaniaethau mewn gwariant ar addysg rhwng Cymru a Lloegr? OAQ(4)0539(ESK)**W**

**5. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Lwybrau Dysgu 14-19? OAQ(4)0542(ESK)**W**

**6. Gwyn Price (Islwyn):** Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud mewn perthynas â lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol? OAQ(4)0529(ESK)

**7. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen Trawsnewid Ein Cymunedau Prifysgol Caerdydd? OAQ(4)0538(ESK)

**8. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg gynradd cyfrwng Cymraeg? OAQ(4)0533(ESK)**W**

**9. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gydweithio rhwng ysgolion uwchradd? OAQ(4)0537(ESK)

**10. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa ystyriaeth a roddir i anghenion addysgol arbennig yn y system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion? OAQ(4)0541(ESK)

**11. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg bellach yng Nghastell-nedd? OAQ(4)0527(ESK)

**12. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Faint o ddosbarthiadau ysgolion cynradd sydd â mwy na'r uchafswm statudol o 30 o ddisgyblion? OAQ(4)0530(ESK)

**13. Sandy Mewies (Delyn):** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru? OAQ(4)0540(ESK)

**14. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o fanteision symud i system drydyddol ar gyfer addysg ôl-16 yng Nghymru? OAQ(4)0528(ESK)

**15. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ansawdd marcio TGAU yng Nghymru? OAQ(4)0526(ES)

## Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau trên rhwng Aberystwyth a'r Amwythig? OAQ(4)0517(EST)**W**

**2. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r diwydiant twristiaeth yng ngogledd Cymru dros y 12 mis nesaf? OAQ(4)0529(EST)

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dwristiaeth ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0530(EST)

**4. Sandy Mewies (Delyn):** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Mersey Rail am faterion sy'n ymwneud â theithwyr yn yr ardal o amgylch ffin gogledd Cymru? OAQ(4)0524(EST)

**5. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau y gall menywod wneud y gorau o'u cyfraniad i economi Cymru? OAQ(4)0528(EST)

**6. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ganolfannau ymchwil ychwanegu at dwf economaidd? OAQ(4)0525(EST)

**7. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen waith ar gyfer y gwaith ffordd sy'n effeithio ar yr A55 yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0522(EST)

**8. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu allbwn economaidd Sir Benfro? OAQ(4)0515(EST)

**9. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu economaidd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0518(EST)

**10. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y bydd Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015 yn cefnogi canolbarth Cymru? OAQ(4)0516(EST)

**11. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wariant seilwaith ffyrdd arfaethedig Llywodraeth Cymru yn Sir Gaerfyrddin? OAQ(4)0523(EST)

**12. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer de-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0527(EST)

**13. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd tuag at weithredu'r cynllun gweithredu ar dwristiaeth cred? OAQ(4)0514(EST)

**14. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth yw'r canlyniadau sydd wedi deillio o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2014 hyd yma? OAQ(4)0520(EST)

**15. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth a ddarperir i fusnesau newydd bach yng Nghymru? OAQ(4)0531(EST)